| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **25 Mehefin 2013** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Cynghorydd Eryl Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg** |
| **Teitl:** | **Adolygu Ysgolion Cynradd Ardal Rhuthun** |

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn ceisio briffio'r Aelodau Cabinet ar ganfyddiadau'r adolygiad diweddar o ddarpariaeth ysgolion cynradd yn ardal Rhuthun ac yn cynnig argymhellion i'w hystyried gan y Cabinet ar gyfer newidiadau i'r ddarpariaeth bresennol.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

2.1 Mae angen penderfyniad ynghylch a ddylid symud ymlaen i ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer nifer o gynigion ac i nodi argymhellion pellach i wella darpariaeth addysg yn yr ardal.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

(i) Nodi canfyddiadau'r ymgynghoriad;

(ii) Cymeradwyo ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer cynigion i gau Ysgol Clocaenog ac Ysgol Cyffylliog ar y 31 Awst, 2014, uno'r ddwy ysgol fel ysgol ardal newydd i'w hagor ar 1 Medi, 2014 ar y safleoedd presennol.

(iii) Cymeradwyo ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer cynigion i gau Ysgol Llanbedr ar y 31 Awst, 2014 gyda'r disgyblion presennol yn trosglwyddo i Ysgol Borthyn, yn amodol ar ddewis y rhieni.

(iv) Argymell i Gyrff Llywodraethu Ysgol Pentrecelyn ac Ysgol Llanfair DC eu bod yn ffurfio ffederasiwn erbyn 1 Medi, 2014 fan bellaf.

(v) Nodi canfyddiadau'r astudiaeth ddichonoldeb gychwynnol i amlygu safleoedd posibl ar gyfer darparu ysgolion cynradd yn ardal Rhuthun ac argymell cynnal gwaith dichonoldeb manwl pellach cyn cadarnhau unrhyw argymhellion ffurfiol ar gyfer Ysgol Stryd y Rhos, Ysgol Borthyn, Ysgol Penbarras ac Ysgol Rhewl.

**4. Manylion am yr Adroddiad**

4.1 Mae'r Cyngor wedi cynnal ymgynghoriad anffurfiol ar ddyfodol y ddarpariaeth gynradd yn ardal Rhuthun. Bu ymgynghori helaeth gyda'r 11 o ysgolion yn yr

adolygiad, gan gynnwys cyfarfodydd â rhieni, staff a llywodraethwyr. Cafodd rhieni eu hannog i lenwi holiaduron ar nifer o faterion yn ymwneud â darpariaeth. Roedd y Cyngor yn glir ar ddechrau'r adolygiad bod angen rhoi sylw i nifer o faterion. Roedd y rhain yn cynnwys y ddibyniaeth ar gabannau, cyflwr gwael safleoedd ysgolion a mwy o lefydd gwag na'r cyfartaledd yn yr ardal.

<u>Cynhwysedd cyfredol ysgolion a niferoedd disgyblion (PLASC Ionawr 2013)</u>

| **Enw'r Ysgol** | | **Nifer ar y gofrestr (Disgyblion llawn amser)** | **Llefydd Gwag** | **% Llefydd Gwag** |
|---|---|---|---|---|
| Borthyn | 142 | 111 | 31 | 21.8% |
| Bro Fammau – Llanferres a Llanarmon | 135 | 92 | 43 | 31.8% |
| Clocaenog | 36 | 36 | 0 | 0% |
| Cyffylliog | 45 | 19 | 26 | 57.8% |
| Gellifor | 91 | 87 | 4 | 4.4% |
| Llanbedr: | 77 | 21 | 56 | 72.73% |
| Llanfair | 113 | 90 | 23 | 20.35% |
| Pentrecelyn | 56 | 31 | 25 | 44.6% |
| Pen Barras | 252 | 223 | 29 | 11.5% |
| Rhewl | 82 | 55 | 27 | 32.9% |
| Stryd y Rhos | 189 | 165 | 24 | 12.7% |
| **Cyfanswm** | **1,218** | **930** | **288** | **23.6%** |

**Casgliadau'r Ymgynghoriad Anffurfiol**

4.2 Gyda'i gilydd cafwyd 195 o ymatebion i'r holiadur, yn ogystal â 63 o lythyrau a negeseuon e-bost gan bobl â diddordeb. Cafwyd hefyd bedwar cynnig gan ysgolion unigol, cyrff llywodraethu a grwpiau cysylltiedig. O ran canfyddiadau'r holiadur (gweler Atodiad 1), y ffactor mwyaf dylanwadol oedd ansawdd yr addysg. Yr ail ffactor oedd pellter o'r cartref ac yna'n agos at ei gilydd, Addysg Cyfrwng Cymraeg, maint yr ysgol, plentyn arall eisoes yn yr ysgol, hwylustod mynediad/ cludiant i'r ysgol ac ansawdd adeiladau ysgol.

4.3 Roedd y prif ffactorau a fyddai'n dylanwadu ar newid yn cynnwys ysgol o fewn pellter cerdded o'u cartref (21.97%), a dyfynnwyd yr effaith ar ymrwymiadau

gwaith (10.6%) hefyd pe bai’n ofynnol iddynt deithio pellter pellach nag y maent yn ei wneud ar hyn o bryd. Ar y cyfan, roedd y mwyafrif (91.5%) o rieni yn credu bod amser teithio o lai na 20 munud yn dderbyniol.

**Y FFORDD YMLAEN**

4.4 Mae'r Cyngor yn dymuno cynnig nifer o argymhellion i alluogi darpariaeth gynaliadwy mwy tymor hir yn ardal Rhuthun. Bydd maint a chyfradd y newid yn dibynnu ar yr adnoddau ariannol. Mae'r cynigion a ddaeth i'r amlwg wedi cael eu grwpio gyda'i gilydd fel y bo'n briodol, yn dibynnu ar eu heffaith ar ysgolion eraill yn yr ardal.

**Cynnig 1 - Creu Ysgol Ardal newydd i wasanaethu cymunedau Clocaenog a Cyffylliog (gweler atodiad 2)**

4.6 Amlygodd y broses adolygu awydd cryf i gadw darpariaeth addysg yn yr ardaloedd gwledig i'r gorllewin o Ruthun. Ar hyn o bryd mae 55 o ddisgyblion llawn amser yn mynychu’r ddwy ysgol, gydag Ysgol Clocaenog â galw mawr ar hyn o bryd, tra bod niferoedd wedi disgyn yn ystod y blynyddoedd diweddar yn Ysgol Cyffylliog. Gan fod yr un o'r safleoedd yn addas ar gyfer eu hymestyn, argymhellir bod Sir Ddinbych yn creu ysgol ardal newydd i wasanaethu’r cymunedau hyn. Yn y camau cychwynnol, byddai’r ysgol ardal ar y safleoedd presennol gyda’r disgyblion Derbyn i Flwyddyn 2 (Cyfnod Sylfaen) yn mynychu safle Cyffylliog a disgyblion Blynyddoedd 3 i 6 (Cyfnod Allweddol 2) yn mynychu safle Clocaenog.

4.7 Dylid ystyried hyn fel dull dau gam gydag ymrwymiad tymor hirach i greu ysgol ar un safle a allai alluogi’r ddau safle presennol i gau ac agor cyfleuster newydd, a allai fod yn gysylltiedig â chyfleusterau cymunedol. Awgrymir y dylai cam cyntaf y newid ddigwydd ar gyfer dechrau mis Medi 2014.

**Cynnig 2 - Cau Ysgol Llanbedr â throsglwyddo disgyblion i Ysgol Borthyn, Rhuthun yn amodol ar ddewis rhieni (gweler Atodiad 3)**

4.8 Nododd y broses adolygu’r dirywiad diweddar yn nifer disgyblion Ysgol Llanbedr a phryderon y Corff Llywodraethu ac eraill na ddylai'r mater hwn gael ei ystyried ar ben ei hun pan fo unrhyw benderfyniad yn cael ei wneud ar ddyfodol yr ysgol. Fodd bynnag, wrth ystyried y ddarpariaeth o fewn tref Rhuthun a'i hamgylchedd agos, mae'n ymddangos fod gorddarpariaeth sylweddol o lefydd cyfrwng Saesneg. Mae Ysgol Llanbedr, (fel Ysgol Borthyn) yn Ysgol Reoledig Wirfoddol Cyfrwng Saesneg yr Eglwys yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae dadansoddiad o'r galw gan rieni wedi nodi mai dim ond 20 yn unig o ddisgyblion o fewn y dalgylch naturiol ar gyfer yr ysgol sy’n dewis addysg cyfrwng Saesneg. Ar hyn o bryd, yn y dalgylch agos byddai ysgol eglwys cyfrwng Saesneg amgen yn Ysgol Borthyn (2.8 milltir) a darpariaeth heb fod yn un ffydd yn Ysgol Gellifor (2.3 milltir) ac Ysgol y Rhos (1.9 milltir). Felly, o ystyried yr angen i leihau'r cyflenwad cyffredinol am ddarpariaeth o'r fath, argymhellir y dylid dechrau ymgynghori ynglŷn â’r argymhelliad y dylid cau Ysgol Llanbedr ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2013/2014.

**Cynnig 3 - Ardal Tref Rhuthun (gweler Atodiad 4)**

4.9 Nododd yr adolygiad gefnogaeth gref i bob un o'r tair ysgol y dref barhau i ddarparu, er y cydnabuwyd yr anawsterau tymor hir sy'n gysylltiedig â safle Stryd y Rhos/ Ysgol Penbarras. Mae gan y safle hwn broblemau mynediad sylweddol o brif Gefnffordd yr A494 heb ardaloedd gollwng addas ar gyfer disgyblion, gan arwain at broblemau tagfeydd a diogelwch. Mae'r safle hwn hefyd yn dibynnu'n drwm ar ddarpariaeth cabannau, yn enwedig ar gyfer Ysgol Penbarras. Mae canfyddiadau'r adolygiad ac asesiad o addasrwydd y safle yn awgrymu fel blaenoriaeth gyntaf dylai'r Cyngor amlygu'r addasrwydd ar gyfer adeiladu campws ysgol newydd posibl ar safle Glasdir i'r Gogledd o'r Dref. Mae astudiaeth dichonoldeb cychwynnol wedi awgrymu y gallai'r tir a ddyrannwyd ar hyn o bryd yn y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer ysgol newydd ddarparu ar gyfer anghenion Stryd y Rhos ac Ysgol Penbarras. Mae angen ystyried yr opsiwn hwn yn fanylach cyn gwneud unrhyw benderfyniadau.

4.10 Mae dyfodol Ysgol Borthyn ac Ysgol Rhewl yn gysylltiedig ag unrhyw gynnig ar gyfer safle Glasdir. Mae'r angen i sicrhau amrywiaeth o ddewis trwy ddarpariaeth ffydd parhaus (yn enwedig pe datblygwyd yr argymhelliad i gau Ysgol Llanbedr) wedi arwain at yr argymhelliad dylid cadw Ysgol Borthyn.

4.11 Amlygodd yr astudiaeth o safle Ysgol Rhewl bod lle i ehangu'r ddarpariaeth bresennol. Fodd bynnag, wrth ystyried hyn, mae angen ystyried cyflwr yr adeiladau presennol ar y safle a'r angen am fuddsoddi yn yr adeiladau hyn i ddod â nhw i safon addas ar gyfer darpariaeth tymor hir. Ar y cyfan, gallai fod yn anodd cyfiawnhau buddsoddiad sylweddol yn safle Ysgol Rhewl pe bai darpariaeth newydd yn cael ei hadeiladu ar safle Glasdir. Felly mae canfyddiadau'r adolygiad yn awgrymu dylid ystyried dyfodol yr ysgol ar y cyd â datblygiad Glasdir. Byddai hyn yn cynnwys yr opsiwn i gau Ysgol Rhewl ar ôl cwblhau'r gwaith ar gyfer yr ysgol(ion) newydd. Byddai angen ymgynghoriad ffurfiol a chyhoeddi hysbysiad statudol ar gyfer unrhyw gynnig a allai godi i gau Ysgol Rhewl.

4.12 Mewn perthynas â chynigion ffurfiol, pe bai un ai Stryd y Rhos neu Ysgol Penbarras neu'r ddwy yn symud o'u safle presennol i safle'r Glasdir, os nad yw'r ysgol yn newid yn sylweddol o ran maint, ni fyddai angen i gynigion statudol gael eu cyhoeddi gan byddai'r ysgol yn trosglwyddo safle gan lai na milltir.

**Cynnig 4 - Ffederasiwn Arfaethedig Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd ac Ysgol Pentrecelyn (gweler Atodiad 5)**

4.13 Nododd y broses ymgynghori gefnogaeth gref ar gyfer cadw darpariaeth addysgol yn y cymunedau o amgylch Llanfair DC a Pentrecelyn. O safbwynt Ysgol Llanfair DC, nodwyd achos clir dros fuddsoddi yn y cyfleusterau, a derbyniwyd gan lawer nad oedd yr ysgol bresennol yn addas i'w phwrpas. Yn Ysgol Pentrecelyn, pwysleisiwyd pwysigrwydd yr ysgol o fewn y gymuned hefyd ochr yn ochr â'r gwahaniaeth rhwng darparu trwy gyfrwng y Gymraeg a

darpariaeth ddwy ffrwd. Wrth ystyried anghenion yr ardal ehangach a'r angen am fuddsoddiad sylweddol, awgrymir dull fesul camau.

4.14 Byddai'r cam cyntaf yn golygu cadw'r ddwy ysgol ac argymell bod y ddau Gorff Llywodraethu yn cynnal trafodaethau i ffurfio ffederasiwn. Byddai Cyngor Sir Ddinbych yn ceisio cael cytundeb mewn egwyddor i ddatblygu hyn, i'w sefydlu erbyn Ionawr 2014 gyda'r bwriad i'r ffederasiwn newydd ddechrau ym mis Medi 2014. Byddai'r cynlluniau tymor hir a fyddai'n ffurfio rhan o gynigion Band B (a drefnwyd ar gyfer 2019 ymlaen) ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif, yn gweld cynnydd tuag at ysgol ardal newydd i wasanaethu cymunedau Pentrecelyn a Llanfair DC. Byddai unrhyw symudiad tuag at ysgol ardal newydd angen ymgynghoriad ffurfiol a byddai hyn yn cael ei ddatblygu ar yr adeg briodol.

**Cynnig 5 - Cefnogaeth ar gyfer Ffederasiwn Ysgol Bryn Clwyd ac Ysgol Gellifor (gweler Atodiad 5)**

4.15 Yn ystod y cyfnod ymgynghori anffurfiol, awgrymwyd y dylid cynnwys Ysgol Bryn Clwyd yn adolygiad Rhuthun, er gwaethaf pa mor agos yr ydyw'n ddaearyddol i Ddinbych. Roedd hyn oherwydd y goblygiadau ar gyfer unrhyw argymhelliad ar gyfer newid yn Ysgol Gellifor gan fod yr ysgolion â threfniadau arwain a rheoli cyfun yn dilyn eu ffederasiwn yn 2011.

4.16 Mae Ysgol Gellifor yn ysgol boblogaidd sy'n gwasanaethu cymuned Gellifor a'r ardaloedd cyfagos. Mae'r ysgol yn denu nifer o ddisgyblion o'r tu allan i'w ardal naturiol ac ar hyn o bryd yn llawn. Ychydig o sgôp sydd yna i ymestyn yr ysgol.

4.17 O ran y trefniadau ffederasiwn, mae gwahaniaeth clir rhwng nifer y disgyblion ar y ddau safle: Mae gan Ysgol Gellifor nifer fach o lefydd gwag (4%) tra bod Ysgol Bryn Clwyd â nifer sylweddol o lefydd gwag (67.6%). Yn amlwg mae gan hyn oblygiadau ar gyfer cynaladwyedd tymor hir y trefniadau ffederasiwn.

4.18 Un o'r materion a gwestiynwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori anffurfiol oedd categorïau ieithyddol y ddwy ysgol. Ar hyn o bryd mae'r ddwy ysgol yn cael eu nodi fel Categori 5, sy'n golygu mai dim ond y lleiafswm o Gymraeg sy'n rhaid ei addysgu yn yr ysgolion. Gan symud ymlaen, byddai'r continwwm iaith Gymraeg yn gweld faint o Gymraeg a addysgir yn yr ysgolion yn cynyddu fel ymateb i farn cyfranogion.

4.19 Mae'r Llywodraethwyr wedi gofyn am sicrwydd ynghylch dyfodol Ysgol Bryn Clwyd o ganlyniad i'r adolygiad hwn ac awydd i ddyfodol tymor hir yr ysgol fod yn gysylltiedig ag unrhyw gynigion sy'n codi o adolygiad Rhuthun. Mae'r Cyngor yn cydnabod hyn i atal unrhyw ansicrwydd pellach am y ffederasiwn.

4.20 Felly, mae'r Cyngor yn argymell i'r Corff Llywodraethu y dylai'r sefyllfa bresennol barhau, yn amodol ar gytundeb i edrych ar gategori iaith Ysgol Bryn Clwyd yn y dyfodol. Bydd angen mynd i'r afael â chydbwysedd disgyblion yn y ddwy ysgol drwy'r trefniadau derbyn.

**Cynnig 6 - Cadw Ysgol Bro Famau (gweler Atodiad 5)**

4.21 Mae'r adolygiad wedi nodi bod yr ysgol yn gwasanaethu ei hardal leol yn bennaf, a bod y ddau safle, yn Llanferres a Llanarmon, ar y cyfan mewn cyflwr da. Fodd bynnag, nodir bod llawer o lefydd gwag yn yr ysgol ar hyn o bryd.

4.22 Ar y cyfan, argymhellir y dylai'r sefyllfa bresennol yn parhau. Yn y tymor byr, bydd yr Awdurdod yn gweithio gyda'r Corff Llywodraethu i adolygu ei ddefnydd presennol o ofod.

**Y Ffordd Ymlaen**

4.23 Argymhellir y dylai unrhyw ymgynghori ffurfiol ddechrau ym mis Medi 2013. Bydd hyn yn caniatáu i'r trafodaethau gychwyn ar ddechrau tymor yr ysgol gyda'r ymgynghoriad yn para o leiaf chwe wythnos. Bydd y broses ymgynghori hon yn rhoi cyfle i rieni, disgyblion, llywodraethwyr a staff wneud sylwadau ar y cynigion cyn i benderfyniad gael ei wneud gan y Cabinet a ddylid bwrw ymlaen a chyhoeddi cynigion yn ffurfiol ar gyfer newid. Mae'n bwysig nodi mai'r unig gynigion a fydd angen ymgynghoriad ffurfiol yn ystod y cam hwn fydd 1 a 2.

4.24 Bydd y gwaith dichonoldeb ar gyfer cynnig 3 yn dechrau yn ystod misoedd yr haf, gyda'r bwriad o gyflwyno'r opsiwn a ffafrir i'r Cabinet yn hwyr yn yr hydref. Bydd y gwaith hwn yn arwain at eglurhad ynghylch yr amrywiaeth o opsiynau ar gyfer sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol ar gyfer y dref. Bydd yr wybodaeth hon yn galluogi'r Cabinet i ystyried yr achos busnes ar gyfer buddsoddi.

4.25 Ar gyfer gweddill y cynigion 4-6, bydd y Pennaeth Addysg a'r Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg, yn amodol ar gymeradwyaeth, yn cychwyn trafodaethau gyda'r Cyrff Llywodraethu perthnasol i sicrhau'r cytundebau angenrheidiol i gyflawni'r newidiadau a amlygwyd. Pe na cheir cymeradwyaeth, yna efallai bydd cynigion amgen yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet yn ystod gwanwyn 2014.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol??

5.1 Mae'r cynnig yn cefnogi blaenoriaeth "Gwella perfformiad mewn addysg ac ansawdd adeiladau ein hysgolion" ac wedi cael ei nodi fel ffrwd waith fel a ganlyn:

"Byddwn yn parhau i adolygu'r ddarpariaeth ysgolion ar draws y Sir er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r nifer cywir o lefydd mewn ysgolion, o'r math cywir, yn y lleoliad cywir."

## 6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Bydd y brif gost ar gyfer y cam hwn o'r cynigion yn ymwneud â chostau argraffu a phostio a'r costau sy'n gysylltiedig â threfnu cyfarfodydd cyhoeddus. Bydd y gwaith dichonoldeb yn cael ei ariannu o adnoddau cyfalaf presennol y Gwasanaeth Addysg.

6.2 Os bydd y cynigion yn symud ymlaen a chael eu gweithredu, rhagwelir y bydd angen cefnogaeth AD ar gyfer staff a fydd yn cael eu heffeithio gan y newidiadau arfaethedig.

**7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad? Dylid cynnwys yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i’r adroddiad..**

7.1 Mae'r AEC cychwynnol a wnaed yn awgrymu yn ystod y cam hwn - cymeradwyaeth i ddechrau ymgynghori - nad oes angen cynnal asesiad llawn ar y penderfyniad hwn.

7.2 Cyn symud ymlaen a cheisio caniatâd i weithredu'r cynnig (h.y. cyhoeddi unrhyw gynnig statudol) bydd Asesiadau Effaith Cydraddoldeb llawn yn cael eu cynnal.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

8.1 Ymgynghorwyd yn llawn â'r holl gyfranogion ac mae canfyddiadau'r cyfnod ymgynghori anffurfiol ynghlwm fel Atodiad 1.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Dim ond mân gostau sy'n gysylltiedig â'r broses adolygu a bydd y rhain yn cael eu talu o gyllidebau presennol. Bydd y cynigion sy'n dod i'r amlwg o'r adolygiadau â goblygiadau ariannol sylweddol.

9.2 Gan nad yw adolygiad ardal Rhuthun yn rhan o gynigion Band A Ysgolion y 21ain Ganrif, bydd yn rhaid i’r Cyngor ariannu 100% o'r costau cyfalaf sy'n gysylltiedig ag unrhyw gynigion. Rhagwelir bydd cynigion yn cael eu hystyried ar gyfer ariannu drwy'r dyraniad a ddarperir o fewn y Cynllun Corfforaethol ac o arbedion a gynhyrchir o’r adolygiad.

**10. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?**

10.1 Mae posibilrwydd cryf y gallai'r cynnig arwain at gyhoeddusrwydd anffafriol i'r Cyngor a sylwadau cyhoeddus anffafriol.

10.2 Er mwyn lleihau'r risg hwn, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau cyfathrebu clir gyda’r holl gyfranogion.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 A28 a 29 Deddf Fframwaith a Safonau Ysgolion 1998.
Deddf Safonau Ysgolion a Sefydliadau (Cymru) 2013
Fframwaith Polisi Moderneiddio Addysg (a gymeradwywyd gan y Cabinet Ionawr 2009)